# Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

**2021 dsc 1**

**RHAN 4**

GWEITHREDIAETHAU, AELODAU, SWYDDOGION A PHWYLLGORAU AWDURDODAU LLEOL

*Gweithrediaethau prif gynghorau*

## 58 Rhannu swydd: arweinyddion gweithrediaeth ac aelodau gweithrediaeth

Mae Atodlen 7 yn darparu ar gyfer diwygiadau i Ddeddf 2000 er mwyn gwneud darpariaeth—

(a) sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gynnwys yn eu trefniadau gweithrediaeth ddarpariaeth sy'n galluogi dau gynghorydd neu ragor i rannu swydd ar weithrediaeth, gan gynnwys swydd arweinydd gweithrediaeth,

(b) sy'n newid uchafswm yr aelodau o weithrediaeth pan fydd aelodau o'r weithrediaeth yn rhannu swydd, ac

(c) ynglŷn â phleidleisio a chworwm pan fo aelodau o weithrediaeth yn rhannu swydd.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 58 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 175(7)**

**I2** A. 58 mewn grym ar 5.5.2022 gan O.S. 2021/231, **ergl. 6(k)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, Adran 58.